# BETH YW DYNEIDDIAETH?

**MAE DYNEIDDIAETH YN OLWG DIGREFYDD AR Y BYD NEU'N AGWEDD DDIGREFYDD AR FYWYD SY'N CAEL EI RHANNU GAN FILIYNAU O BOBL YN Y DU A LEDLED Y BYD.**

Mae dyneiddwyr yn credu ei bod yn bosibl byw bywyd da, hapus ac ystyrlon heb fod angen crefydd.

Mae'r **Bod Dynol Hapus** yn symbol sy'n cael ei ddefnyddio gan sefydliadau dyneiddiol ledled y byd. Mae'n cynrychioli dathlu bod yn ddynol – dathlu'r hyn y gall bodau dynol ei wneud a dathlu y gallwn ni fod yn hapus.

> "Mae pobl ddi-grefydd â rhagolwg dyneiddiol ar fywyd wedi bodoli ers dechrau dyniolaeth: wedi'i llywio gan dystiolaeth, wedi'i hysbrydoli gan empathi, a'i thrwytho â gobaith a rhyfeddod am y byd o'n cwmpas."

**ANDREW COPSON,**
Prif Weithredwr,
Dyneiddwyr y DU




## HANES DYNEIDDIAETH

Mae dyneiddiaeth yn wahanol i lawer o grefyddau gan nad oes ganddi sylfaenydd. Mae llawer o bobl mewn hanes o wahanol leoedd ledled y byd wedi ceisio ateb cwestiynau mawr o safbwynt digrefydd. Mae llawer o'r rhain wedi dylanwadu ar ddynoliaeth fodern. Mae modd dod o hyd i syniadau dyneiddiol dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl yn yr hen India, Tsieina, a Gwlad Groeg. Daeth syniadau dyneiddiol yn fwyfwy poblogaidd yn ystod cyfnod o'r enw Yr Ymoleuo yn y 18fed ganrif.



## FAINT O DDYNEIDDWYR SYDD?

Yn y DU, mae tua 5% o bobl (un o bob 20) yn defnyddio'r label 'dyneiddiwr' i ddisgrifio eu hunain. Fodd bynnag, mae llawer mwy yn rhannu credoau a gwerthoedd dyneiddiaeth. Mae dyneiddwyr a sefydliadau dyneiddiol i'w gweld ledled y byd – yn Ewrop, Affrica, Asia, ac America.



 © HUMANISTS UK 2021

# PUM NODWEDD GYFFREDIN MEWN AGWEDD DDYNEIDDIOL TUAG AT FYWYD


1. Mae dyneiddwyr yn credu bod bodau dynol wedi **esblygu**'n naturiol. Mae gennym ni lawer o alluoedd ac, os byddwn ni'n eu defnyddio'n dda, mae gennym ni'r **potensial** i fyw bywydau da a hapus

2. Mae dyneiddwyr yn credu bod y byd yn lle **naturiol** heb unrhyw ochr oruwchnaturiol (nid ydyn nhw'n credu mewn duw). Maen nhw'n credu bod **gwyddoniaeth** a chwilio am **dystiolaeth** yn rhoi'r ffordd orau i ni ateb ein cwestiynau am y byd.

3. Mae dyneiddwyr yn credu mai dyma'r **unig fywyd** sydd gennym ni ac felly mae angen i ni wneud y gorau ohono. Maen nhw'n credu y dylem ni fod yn **rhydd** i benderfynu sut yr ydym ni'n byw (ar yr amod nad ydym ni'n achosi niwed i eraill), gan geisio **hapusrwydd** a chefnogi eraill i wneud yr un peth.

4. Mae dyneiddwyr yn credu y dylem ni ddefnyddio **empathi** a cheisio trin pobl eraill yn garedig ac yn deg. Dylem ni ystyried canlyniadau ein gweithredoedd a'r effaith debygol ar bobl ac anifeiliaid eraill.

5. Mae dyneiddwyr yn credu mai bodau dynol yn unig sy'n **gyfrifol** am wneud y byd yn lle gwell. Mae llawer yn ymgyrchu dros gydraddoldeb a hawliau dynol. Maen nhw'n dathlu'r cynnydd yr ydym ni wedi'i wneud, ond yn cydnabod y gwaith sy'n dal i'w wneud.



Mae llawer o ddyneiddwyr yn edmygu ac yn ceisio byw yn ôl y **RHEOL AUR:** 'Dylech chi drin pobl eraill fel y byddech chi eisiau cael eich trin yn eu sefyllfa nhw. Peidiwch â thrin eraill mewn ffordd na fyddech chi'n hoffi cael eich trin eich hun.'



## SEREMONÏAU DYNEIDDIOL

Heddiw, mae llawer o bobl ddigrefydd yn dewis cael seremoni ddyneiddiol. Gallai hon fod yn seremoni enwi (i ddathlu dyfodiad babi newydd), priodas, neu angladd. Maen nhw'n cael eu harwain gan **weinydd dyneiddiol**. Mae seremonïau dyneiddiol yn aml yn canolbwyntio ar ryddid y rhai dan sylw i ddewis sut y maen nhw eisiau nodi'r achlysur, a phwysigrwydd cariad a chefnogaeth pobl eraill yn ein bywydau.



 © HUMANISTS UK 2021